# Newyddion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) – Medi 2014

**Cynnwys**

Newyddion am y Gwasanaeth Diweddaru
Cyfeirnodau ffurflenni cais
Ymarfer ailgyflenwi ffurflenni cais
Gwiriadau yn y fan a’r lle yn cyflymu prosesau recriwtio
Wythnos Ffocws DBS
Tudalen hafan haws ei defnyddio
Gweithwyr o dramor: pa ddogfennau ID y gellir eu defnyddio?
Gwasanaeth Diweddaru: Swyddi Yn y Cartref

Helo, a chroeso i rifyn mis Medi o Newyddion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Y mis hwn, rydym wedi cael un o’n cyfnodau prysuraf erioed - derbyniodd ein canolfan alwadau ei nifer uchaf o alwadau mewn diwrnod yn gynharach yn y mis – bron i 5,000. Mae’r niferoedd hyn yn uwch na'r hyn rydym wedi arfer iddynt a dyma'r tro cyntaf inni weld y lefel hon o alwadau mewn tair blynedd.

Ar gyfartaledd, roedd dros 30% o’r rhai a alwodd yn holi am hynt ceisiadau, y gellir eu tracio ar-lein. Rydym yn gwerthfawrogi’r rôl sydd gennych yn ein helpu i ddarparu ein gwasanaethau a byddem yn falch iawn petaech yn annog eich cwsmeriaid i ddefnyddio'r llwybr hwn yn hytrach na'n ffonio ni.

Mae llawer o gwsmeriaid wedi arfer â chyfnod prosesu o 7-14 diwrnod ar gyfer derbyn tystysgrifau. Ond mae’n cymryd mwy o amser i brosesu ceisiadau ar hyn o bryd oherwydd y niferoedd mawr rydym yn eu cael.

Mae’n ddrwg gennym os yw hyn wedi achosi unrhyw anhwylustod. Rydym yn gwneud popeth posibl i leihau’r amseroedd aros, gan gynnwys recriwtio a hyfforddi rhagor o staff a pharhau i weithio’n agos gyda heddluoedd.

Byddai o gymorth mawr i'n cwsmeriaid petaech yn anfon ceisiadau atom cyn gynted â phosibl. Gallwch hefyd ddweud wrthyn nhw am yr amseroedd aros hirach nag arfer a dweud y gallan nhw dracio hynt eu

cais ar-lein. Lle bo hynny’n bosibl, bydd rhoi cyfeirnod eu ffurflen gais i gwsmeriaid yn golygu y gallan nhw wirio hynt eu cais pan mae’n gyfleus iddyn nhw.

Rydym yn gwerthfawrogi eich amynedd yn fawr a gobeithio y byddwn yn gallu dychwelyd yn fuan iawn at y lefel o wasanaeth cwsmeriaid rydych wedi arfer ag ef ac yn ei ddisgwyl.

Un nodyn i orffen - Ofsted (Blynyddoedd Cynnar) yw’r sefydliad statudol mawr cyntaf i wneud y defnydd o’r Gwasanaeth Diweddaru yn orfodol ar gyfer gwarchodwyr plant cofrestredig. Mae’n braf gweld sefydliad mor fawr yn dangos y fath ymrwymiad i’r gwasanaeth mewn termau real ac yn ymwybodol o’r manteision sydd i’w cael o’i ddefnyddio.

**Ian Johnston**

**Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Datgelu)**

## Newyddion am y Gwasanaeth Diweddaru

Ofsted (Blynyddoedd Cynnar) yw’r sefydliad statudol mawr cyntaf i wneud y defnydd o’r Gwasanaeth Diweddaru yn orfodol.

Ar gyfer ceisiadau a gyflwynir ar neu ar ôl 1 Medi 2014, rhaid i’r holl warchodwyr plant sydd wedi cofrestru gydag Ofsted (a phawb sy'n gysylltiedig â'u cais) ymuno â'r Gwasanaeth Diweddaru a rhoi eu caniatâd i Ofsted ailarchwilio statws eu tystysgrif DBS bob chwe mis o leiaf.

## Pwysigrwydd cyfeirnod y ffurflen gais

Rydym wedi sôn wrthych chi am yr holl alwadau y mae'n canolfan alwadau yn eu derbyn. Mewn rhai achosion, gallwn helpu cwsmeriaid i ddod o hyd i'r wybodaeth y maent ei hangen heb ein ffonio ni.

Mae llawer o'r ymgeiswyr yn defnyddio’n gwasanaeth tracio ar-lein ond yn aml yn ein ffonio i gael cyfeirnod eu ffurflen gais (y rhif ‘F’ ar du blaen y ffurflen bapur – neu ar gyfer ymgeiswyr e-Bulk, eu cyfeirnod ‘e’) – sy’n hanfodol i dracio cais.

Yn y lle cyntaf, mae angen i ymgeiswyr ofyn i'w Corff/cyflogwr Cofrestredig am y rhif hwn - a dylai gael ei roi iddyn nhw, lle bo modd, pan fyddant yn gwneud cais.

Drwy ddarparu cyfeirnod eu ffurflen gais (neu ddweud wrthyn nhw lle gallan nhw ddod o hyd iddo) cyn gynted â phosibl, gallant ddefnyddio'r gwasanaeth tracio ar-lein a'r Gwasanaeth Diweddaru ar adeg sy'n hwylus iddyn nhw, heb orfod ein ffonio ni i ddechrau. Mae hyn yn rhoi gwell profiad ac yn rhyddhau ein canolfan alwadau i helpu'r rheini nad ydyn nhw'n gallu dod o hyd i'r hyn sydd ei angen arnyn nhw ar ein gwefan neu gan eu Corff Cofrestredig.

Manteision tracio ceisiadau ar-lein:

• ar gael 24/7

• yn rhoi canlyniadau amser-real yn syth

• gallwch dracio ceisiadau lluosog a gall cyrff cofrestredig ei ddefnyddio i archebu ffurflenni cais gwag

I’r rheini y bydd angen iddyn nhw ein ffonio, bydd bod â chyfeirnod eu ffurflen gais wrth law yn ein galluogi ni i’w helpu’n gynt a lleihau’r amser y bydd angen iddyn nhw fod ar y ffôn.

## Mae ein hymarfer ailgyflenwi ffurflenni cais yn parhau

Fel y cawsoch wybod yn rhifyn mis diwethaf (‘Ymarfer ailgyflenwi ffurflenni newydd ar waith’), rydym yn anfon cyflenwad newydd o ffurflenni cais at bob Corff Cofrestredig sy’n defnyddio’r llwybr cais papur. Disgwyliwn y bydd hyn wedi’i wneud erbyn diwedd mis Hydref.

Cyn gynted ag y byddwch yn derbyn y ffurflenni newydd hyn, rhaid ichi ddechrau’u defnyddio'n syth a dinistrio'r holl stociau sydd gennych o'r hen rai.

## Gwiriadau ar-lein yn y fan a’r lle yn cyflymu prosesau recriwtio

Mae’r Gwasanaeth Diweddaru yn arf defnyddiol ar gyfer diogelu grwpiau bregus, gan gynnwys plant. Mae’n galluogi unigolion i gadw’u tystysgrif

yn gyfredol a'i defnyddio ar gyfer swyddi gwahanol yn yr un gweithlu. Gall hefyd wella'ch gallu chi i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel a'u gwneud yn gynt.

**Cyflymach**

Mae'r Gwasanaeth Diweddaru'n gwella mynediad at ein gwasanaethau. Gallwch wirio statws cofnod troseddol tystysgrifau unigolion unrhyw bryd yn rhad ac am ddim – gan eich helpu i wneud penderfyniadau recriwtio gwybodus yn gyflymach. Gallwch hefyd gyflwyno nifer mawr o wiriadau ar yr un pryd.

**Mwy Diogel**

Mae rhai cyflogwyr wedi terfynu cyflogaeth rhai pobl oherwydd newidiadau i statws tystysgrif cofnod troseddol flaenorol nad oeddynt efallai yn ymwybodol ohoni'n flaenorol. Gallwch archwilio tystysgrif unigolyn unrhyw bryd, gyda'u caniatâd. Gallai hyn leihau'r risgiau i chi, a gwella'r broses ddiogelu.

**Y camau nesaf**

Helpwch eich ymgeiswyr i ymuno er mwyn i'r prosesau recriwtio ac ailwirio gael eu gwneud yn gynt.
Rhowch gyfeirnod eu ffurflenni cais i'r ymgeiswyr er mwyn iddynt allu ymuno'n gynt.
Gyda'u caniatâd, gallwch archwilio'u tystysgrif cyn gynted ag y bydd wedi'i chysylltu â'u tanysgrifiad.

## Wythnos Ffocws DBS

Rydym yn falch iawn o fod yn gweithio gyda'r NSPCC i fod yn rhan o'u hwythnos gyntaf erioed i roi sylw i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Bydd yn cael ei chynnal ar wefan Safe Network yr NSPCC. Tarwch olwg ar y wefan rhwng dydd Llun 29 Medi a dydd Gwener 03 Hydref.

Ymysg y cynnwys fe fydd erthyglau yn hyrwyddo'n gwasanaethau a'n gwaith yn diogelu grwpiau bregus, gan gynnwys plant, ein gweledigaeth a'r heriau i'r dyfodol. Byddwn hefyd yn sôn am y ffordd y mae elfennau ein gwaith yn dod ynghyd a sut y gall sefydliadau a phartneriaid wneud eu rhan i sicrhau ein bod yn diogelu'r cyhoedd.

Byddwn yn cynnal dwy weminar ac yn eich gwahodd i ymuno ar:

• 2 Hydref i siarad am Atgyfeirio

• 3 Hydref ar Ddatgelu

Bydd erthygl ar ein Prif Weithredwr, Adriènne Kelbie. Bydd yn rhoi syniad ichi o'i rôl, beth sy'n wynebu'r DBS a'n hymgyrch ar y cyd i wella ein gwasanaethau gan gynnal ein lefelau uchel o wasanaeth yn bwrpasol i ddiogelu'r cyhoedd.

Bydd erthyglau hefyd gan Ian Johnston, Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Datgelu) a Janet Gauld, Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Gwahardd).

Bydd llawer mwy yn digwydd – popeth yn rhoi gwybodaeth – felly rhowch nod tudalen ar y safle hwn ac ymweld yn ystod wythnos DBS!

## **Tudalen hafan haws ei defnyddio**

Rydym wedi gwella tudalen hafan ein gwefan er mwyn ei gwneud yn haws ac yn gyflymach ichi ddod o hyd i gynnwys poblogaidd.

Rydym wedi dyblu'r prif ddolenni o bump i ddeg. Mae'r rhain yn mynd â chi at y wybodaeth ar y wefan y mae pobl yn mynd ati fwyaf. Rydym hefyd wedi'u gwneud yn fwy gweladwy – maen nhw ar ganol y dudalen.

Gallwn newid y dolenni hyn i ddiwallu'ch anghenion chi a byddwn yn defnyddio gwybodaeth am y traffig ar y wefan a'ch ymholiadau i wneud hyn.

Mae ein straeon newyddion, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi, yn dal ar y dudalen hafan - o dan y prif ddolenni.

## **Gweithwyr o dramor: pa ddogfennau ID y gellir eu defnyddio?**

Ym mis Gorffennaf, gwnaethom newidiadau i'r rhestr o ddogfennau adnabod dilys. Roedd un o'r newidiadau hyn yn galluogi trigolion yr UE i ddefnyddio'u trwydded yrru fel dogfen adnabod Grŵp 1.

Mae gweithwyr tramor y mae angen archwiliad DBS arnyn nhw yn gallu defnyddio dogfennau adnabod eraill, gan gynnwys:

• Pasbort

• Trwydded preswylio biometrig

• Trwydded yrru

• Llythyr noddi gan ddarparwr cyflogaeth yn y dyfodol

• Trwydded waith / Fisa

• Cyfriflen Banc/Cymdeithas Adeiladu neu gyfriflen cerdyn credyd

• Cerdyn ID Cenedlaethol yr UE

Mae rhai cyfyngiadau ar y defnydd o'r dogfennau hyn. Felly ewch at y rhestr o ddogfennau adnabod dilys yn ein canllawiau archwilio dogfennau adnabod.

Allwch chi ddim derbyn dogfen dramor sy'n cyfateb i ddogfen adnabod os yw'r ddogfen honno wedi'i rhestru fel dogfen 'y DU yn unig' ar y rhestr o ddogfennau adnabod dilys.
Os yw'r ddogfen adnabod mewn iaith dramor a heb ei rhestru fel 'y DU yn unig', gallwch ei derbyn ond rhaid cael cyfieithiad o'r ddogfen honno, wedi'i hardystio gan Notari Cyhoeddus.

## Gwasanaeth Diweddaru: Galwedigaethau yn y Cartref

Cofiwch, os byddwch chi'n cynnal gwiriad statws ar gyfer rôl Yn y Cartref yn hytrach na gwneud cais am dystysgrif newydd, efallai na fydd risgiau trydydd parti yn cael eu pennu.

Pan fydd rhywun yn gwneud cais am wiriad DBS ar gyfer swydd Yn y Cartref, mae'r heddlu'n cynnal gwiriadau trydydd parti ar y cyfeiriad lle bydd y rôl yn cael ei chyflawni, y trigolion yn y cyfeiriad hwnnw ac unigolion sy'n gysylltiedig â'r ymgeisydd.

Dim ond chwilio am ddiweddariadau yn ymwneud â'r tanysgrifiwr y mae'r Gwasanaeth Diweddaru – gan mai dim ond ei fonitro ar 'gweithlu' y gellir ei wneud â chais a gafodd ei brosesu'n wreiddiol fel Yn y Cartref. Nid yw'n chwilio am ddiweddariadau newydd yn ymwneud â'r cyfeiriad

cartref lle mae’r gwaith yn cael ei wneud, nac unrhyw berson arall yn y cyfeiriad (gwybodaeth ‘trydydd parti').

Dim ond ar y wybodaeth sydd ar gael ac a gyflwynir iddyn nhw y gall yr heddlu seilio’u gwiriadau. Ond, mae ganddynt y gallu statudol o hyd i ddatgelu gwybodaeth sydd, ym marn resymol prif swyddog yr heddlu perthnasol, yn wybodaeth berthnasol, ac sydd, yn ei farn ef, yn wybodaeth y dylai gael ei datgelu.

Bydd cyflwyno cais newydd Yn y Cartref yn sicrhau bod risgiau trydydd parti yn cael eu pennu ac yn cael eu datgelu gan yr heddlu, lle y bo’n briodol.